



**TGAU**  
**LLENYDDIAETH GYMRAEG**  
**UNED 2: Y NOFEL**  
**HAEN UWCH**  
**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**1¼ awr**

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 8 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Defnyddiwch yr indecs isod i ddod o hyd i'r nofel y buoch chi'n ei hastudio ac atebwch y cwestiynau ar y nofel honno.

**Cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau.**

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron na thestunau gosod.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am bob cwestiwn cyfan. Dangosir y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd y cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael ei ystyried yn rhan o'r asesiad.

**NOFELAU**

**Tudalen**

AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR (Alun Jones)	14
I BLE'R AETH HAUL Y BORE? (Eirug Wyn)	16
DIM (Dafydd Chilton)	18
Y STAFELL DDIRGEL (Marion Eames)	20
YN Y GWAED (Geraint Vaughan Jones)	22
O RAN (Mererid Hopwood)	24

**AC YNA CLYWODD SŴN Y MÔR – Alun Jones**

1. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch ddylanwad **dwylfenyw / dwylldynes** ar fywyd Meredydd. Dylech sôn am bersonoliaeth y **ddwy** a'u dylanwad ar Meredydd.  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 15.  
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson Gladys** ar ôl iddi weld cysgod Richard Jones yn ei gardd.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

Edrychodd y ddau i fyny'n sydyn. O'u blaenau, yr oedd cryn ddwsin o blismyn yn edrych tuag atynt, a sylwodd Meredydd ar Gareth Hughes yn eu canol. Daeth rhingyll oddi wrth y criw tuag atynt, ac yr oedd yn amlwg mai ef oedd yr un a waeddodd arnynt.

"Ac i ble'r ewch chi, tybad?"

5 "Am dro," atebodd Meredydd yn sydyn ac yn swta.

"Dewch chi ddim am dro ar hyd y lôn yma. Cerwch, miglwch hi."

"Dim peryg yn y byd."

Yr oedd Meredydd yn dechrau tanio. Edrychai'n herfeiddiol ar y rhingyll ac atgasedd lond ei lygaid. Gafaelai Einir yn dynn yn ei fraich.

10 "Yli di was, os ydw i'n deud ..."

"Ylwch chitha. Os ydw i isio mynd i Dan Ceris i edrych am Now, mi a'i i Dan Ceris i edrych am Now, ac os penderfyna i fynd i ben y mynydd, yno landia i. Be 'dach chi'n ei wneud yma, pa'r un bynnag? Dim ond blydi plismyn fyddai'n ddigon dwl i chwilio ochra mynydd am ddyn wedi boddi yn y môr."

15 Dawnsiai'r rhingyll yn ei unfan.

"Yli di'r geg fawr, be wyddost ti am foddi?"

Yr oedd wyneb yn wyneb â Meredydd erbyn hyn, a chodai'r arogl baco cryf a ddeuai o'i geg gyfog ar Meredydd. Hoffai chwydu i'w wyneb. Aeth yn welw yn sydyn a rhoes gam yn ôl.

20 "Mi wn i fwy am foddi na thi, y plismon drama uffar," meddai rhwng ei ddannedd.

Troes Meredydd i fynd heibio iddo, ond rhuthrodd y rhingyll am ei fraich. Wrth eu hochr safai Einir yn crynu, gan ddal i afael yn dynn yn Meredydd.

"Be ddwedist ti'r cyw mul diawl?"

Symudodd rhai o'r plismyn eraill tuag atynt pan welsant ei bod yn mynd yn syrcas yno.

25 Gwelodd Meredydd yr Arolygydd a oedd yn nhŷ Gladys y diwrnod y bu farw yn dod o'u canol yn sydyn.

"Be sy'n bod?" gofynnodd.

Dechreuodd y rhingyll ddweud ei gŵyn, ond torrodd Meredydd ar ei draws.

30 "Ble'r oeddech chi ddwy flynedd yn ôl y diawliaid?" gofynnodd i'w canol. "Mi fu 'na foddi yma'r adeg honno hefyd."

Yr oedd wedi gwylltio gormod i ddal ei olygon ar unrhyw un o'r plismyn, a gwibiai ei lygaid o un i'r llall heb weld yr un ohonynt.

"Ond doedd hynny ddim yn bwysig nac oedd? Doedd ffeuan o bwys am hwnnw'n nac oedd?"

35 Ceisiodd yr Arolygydd siarad ond mynnai Meredydd gael y blaen.

"Be sydd mor arbennig yn hwn? Wedi treisio rhywun mae o?"

Dechreuodd rhai o'r plismyn wingo.

"Be wnewch chi efo fo pan ddowch chi o hyd iddo fo? Ei ddyrnu fo a'i gicio fo ..."

"Taw, Meredydd."

40 Daeth llais Einir ag ef at ei goed a rhoes daw arni.

**I BLE'R AETH HAUL Y BORE – Eirug Wyn**

2. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch ddylanwad **dau ddyn** ar fywyd Haul y Bore. Dylech sôn am bersonoliaeth y **ddau** a'u dylanwad ar Haul y Bore.  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 17.  
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson Manuelito** cyn i lwyth y Navaho gychwyn ar y daith i'r Bosque.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

- Roedd Carleton yn flin. Roedd o'n flin yn bennaf am iddo gael ei ddeffro ac yntau'n mwynhau ei gwsg.
- “Ei restio fo, syr! Rhaid i chi ei restio fo a'i tsiarjo fo!”
- 5 “Milwr ydi o fel ti, Kit!”
- “Pa fath o filwr sy'n lledaenu'r frech wen, syr? Ac yn peryglu iechyd y Ffort i gyd?”
- “Pranc oedd o!”
- “Glywais i chi'n iawn, syr?”
- Anwybyddodd Carleton ei eiriau.
- 10 “Lle mae Dicks rŵan?”
- “Dw i wedi'i daflu o i gell, syr.”
- “Beth?”
- “Dw i wedi rhoi carn pistol ar draws ei wegil a'i roi o mewn cell, syr.”
- “Yna dos i'w ollwng yn rhydd!”
- 15 “Na wna, syr!”
- “Beth?”
- “Mae o fewn fy hawliau i fel is-gyrnol i orchymyn cadw milwr sydd wedi troseddu'n ddifrifol mewn cell, syr!”
- Gwyddai yn syth na ddylai fod wedi rhoi pwyslais mor sarcastig ar y 'syr' olaf yna.
- 20 “Y fi sydd yn gorchymyn restio swyddogion sydd o dan f'awdurdod i – A NEB ARALL!”
- Roedd wyneb Carleton yn fflamgoch. Camodd at y drws a'i agor.
- “Sarjant! Dowch yma a dau ddyn hefoch chi! Ar y dwbwl!”
- Mae'r Is-gyrnol Carson i'w restio, Sarjant!”
- “Syr?”
- 25 “I'w restio a'i ddiarfogi, Sarjant!”
- “Beth yw'r cyhuddiad, syr?” gofynnodd Carson mewn llais tawel.
- “Anufudd-dod i ddechrau! Efallai y gallwn ni daflu ymosodiad ar gyd-swyddog i fewn yn rhywle hefyd!”
- Safodd Carson fel delw o flaen Carleton, yna saliwiodd yn goeglyd.
- 30 “Syr! Caniatâd i siarad, syr!”
- Edrychodd Carleton dros ei guwch.
- “Ie?”
- Estynnodd Carson ei gyllell, ac yn araf a bwriadol torrodd ei ysgwydd-ddarnau oddi ar ei lifrai.
- 35 “Y mae perthyn i'r un gatrawd â Dicks yn troi fy stumog, syr! Mae eich bod chi'n gwybod am weithgareddau Dicks ac yn gwrthod fy nghefnogi yn troi fy stumog ymhellach, syr!”
- “Carson!”
- “Mae'n rhaid i rywun, rywbryd, ddweud 'NA', syr!”
- 40 “Fe fyddi di'n edifar ...”
- “Byddaf ... syr!”
- “Carson!”
- “Gyda ... phob ...parch ... dydach chi ddim gwell na fo syr!”
- Tynnodd Carson ei felt a'i wn, a'u taflu ar ddesg Carleton. Roedd llygaid Carleton yn melltenu wrth iddo roi'r gorchymyn i'r Sarjant.
- 45 “Carson i'r gell Sarjant, a'r Capten Dicks i ddod yma!”
- Ymhen chwarter awr roedd Dicks yn sefyll o'i flaen a chlais du-las ar ochr ei wyneb. Rhoddodd Carleton orchymyn iddo fynd ar ôl Manuelito gyda hanner cant o ddynion. Doedd o ddim i ddangos trugaredd, a doedd o ddim i gymryd carcharorion.

**DIM – Dafydd Chilton**

3. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) *“Cododd Owain ei alsen yn uchel. Dyrnodd hi i'r awyr fel gwron yn taro saliw  
ar ei ffordd i'r gad. Teimlodd Richard Lloyd ias oer yn llithro i fyny ei asgwrn  
cefn ac yn crychu blew ei war.”*  
Trafodwch arwyddocâd y geiriau hyn wrth ystyried hanes Owain yn y nofel.  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 19.  
Sut mae'r awdur yn creu cynnwrf yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson** Owain ar ôl iddo dderbyn y cyfnod Sabothol gyda'r  
fyddin yng Nghymru.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

- Ac yna, fe gododd Dai.  
 Daeth i flaen y llwyfan a sefyll yno.  
 Edrychodd ar y dorf o fechgyn heb ddweud gair.  
 Ddechreuai Dai ddim nes bod pawb yn dangos, yn eu hwynebau a'u hosgo, y parch a  
 5 fynnai o. Crwydrodd ei lygaid o gwmpas y dorf, i chwlio am y rhai a allai fod ag angen  
 clywed min ei dafod. Oedodd ei olwg fymryn yn hirach ar y rheiny. Nes iddyn nhw wywo'n  
 foddhaol.  
 Wedi sicrhau sylw pawb fe gododd ei sbectol i'w drwyn a chlirio'i lwnc.  
 Daeth bloedd. Oddi wrth Gwyn. Trodd llygaid yr ysgol i edrych arno a gwyddai Owain  
 10 yn syth beth oedd wedi digwydd. Roedd Dunning, un o fêts Alistair Watts o *Five Two*,  
 wedi crafu blaen ei esgid i lawr hyd gewyn ffêr Gwyn. Roedd Dunning yn un o'r rhai a  
 roddai glemliau ar flaenau a sodlau ei esgidiau i greu sŵn da, sŵn 'dyn caled', wrth iddo  
 gerdded; ac am resymau eraill, fel roedd Gwyn newydd ei brofi.  
 Rhwbiodd Gwyn ei ffêr ac yna, gan daflu golwg filain ar Dunning, fe sythodd yn ôl i olwg  
 15 Dai. Diolchodd Owain nad oedd Gwyn wedi taflu dwrn, ond gwyddai'n iawn mor agos yr  
 oedd o at wneud hynny, a bod y cochni a lifai i'w wyneb yn arwydd o'i ymdrech i beidio.  
 "Well?" Saethodd y gair o enau Dai. Safai Gwyn yn llonydd, a lliw ei ddicter yn treio'n  
 glytiau ac yna'n welwder hen gadach llawr. "Are you finished?"  
 Agorodd Gwyn ei geg i ateb.  
 20 "Get out!!"  
 Dechreuodd Gwyn symud trwy'r disgyblion, yn araf ond yn ddirwystr, fel petai pawb  
 newydd ddarganfod fod ganddo afiechyd heintus.  
 Roedd Dai Lewis yn ddisgyblwr diarhebol o lym. Ond roedd y llipryn hwnnw *Lloyd*  
*from the hills* wedi rhoi pîn ym mogel ei anerchiad cyntaf fel Y Prif. Roedd wedi difetha un  
 25 o ddigwyddiadau mawr ei fywyd. Roedd yn poeri.  
 "Go to my Office! How DARE you interrupt ME! You IGNORANT Welsh INSECT!"  
 Arhosodd Gwyn.  
 Daliodd Owain ei wynt. Paid, Gwyn. Dalia i fynd. Dydi o'm werth o.  
 Trodd Gwyn a chodi ei ên.  
 30 Synhwyrodd pawb fod rhywbeth anarferol yn digwydd ac, fel un wedi ei hudo, fe  
 wylion nhw Gwyn â'u llygaid yn grwn. Daliai Dai Lewis i fytheirio ond roedd hi'n rhy hwyr i  
 atal dim drwy weiddi. Dechreuodd Tom Tilley a Spring i lawr o'r llwyfan.  
 Roedd Gwyn fel petai wedi tyfu. Roedd yna awra o'i gwmpas, rhywbeth gloyw, hud,  
 brawychus. Roedd yn rhywun arall. Ac fel yr arall hwnnw roedd ganddo'r holl amser yn y  
 35 byd i godi ei fraich...  
 Ac yna, ei ddau fys...  
 Ar Dai Lewis.  
 Yna torrwyd yr hud. Cyrhaeddodd Tom a Spring, a gafael yn Gwyn. Safodd yntau'n  
 ufudd a'i ddwylo wrth ei ochr, a than ergydion dynau'r ddau athro fe'i llusgwyd o'r neuadd.  
 40 Chafodd Owain byth wybod beth yn union a ddigwyddodd i Gwyn ar ôl yr *assembly*.  
 Ond fe welodd y cleisiau. Roedd y marciau coch-yn-troi'n-borffor a welodd wrth noswyllo'r  
 noson honno yn amlwg ac yn niferus ar hyd cefn a chefnau coesau ei frawd. Ddywedodd  
 Gwyn yr un gair. Roedd yn amlwg mewn poen, ond roedd yna hefyd ysgafnder o'i  
 gwmpas nad oedd Owain wedi ei weld o'r blaen. Ysgafnder aderyn bach. Un â'i nyth  
 45 mewn lle diogel.

**Y STAFELL DDIRGEL – Marion Eames**

- 4.** Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch ddylanwad **dw y fenyw / dw y ddynes** ar fywyd Rowland. Dylech sôn am bersonoliaeth y **ddwy** a'u dylanwad ar Rowland.  
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 21.  
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson Huw Morris** ar ôl cael ei ddiswyddo o Fryn-mawr.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]



'Mi es yno i weld Sinai Robarts.'

'Gwraig y Cwacer!'

Rhoes Meg gymaint o waradwydd yn ei llais ag oedd yn bosibl iddi. Nid oedd yr wybodaeth yn syndod iddi, ond roedd hi'n casáu'r wybodaeth â'i holl natur. Dechreuodd  
5 grynno o'i chorun i'w thraed. Canmil gwell fyddai clywed gan ei gŵr iddo ymweld â phutain. Byddai hynny'n naturiol i ddyn; roedd amryw o sgweierod yr ardal yn gwneud hyn o dro i dro, a phawb, yn cynnwys eu gwragedd, yn barod i gau llygad ar y peth. Ond gwyddai Meg am Sinai Robarts, ac er cymaint ei hawydd, ni allai gredu mai cymhellion cnawdol a yrrodd ei gŵr i'w gweld.

10 'Mae'r "Cwacer", fel y gelwch o, wedi marw, Meg.'

'Gorau'n byd, medda fi. Fedra'i ddim dioddef eithafwyr o unrhyw fath. Lloercan oedd lfan Robarts erioed, a mi rydw i'n synnu atat ti'n ymhél â'r fath boblach.'

Hyd yn oed yn ei thymmer roedd Meg yn brydferth. Gwyddai Rowland ei fod o'n dal i garu ei wraig, ond roedd edrych arni yn awr fel edrych ar roslyn yn y gwrych. Gallai  
15 edmygu ei harddwch o bell heb chwennych ei feddiannu.

'Mae'n ddrwg calon gen i dy fod ti'n teimlo fel hyn,' ebe ef yn isel. 'Mi wn mai ofn sy'n dy yrru felly. Mae ofn arna' inna hefyd, wsti.' Fe'i cywirodd ei hun. 'Neu mi fu.' Cododd a daeth at ei wraig gan afael yn ei dwylo. 'Ceisia ddeall, y fech,' meddai gan lithro i dafodiaith y fro fel y gwnâi bob amser wrth siarad geiriau anwes. 'Dwyt ti ddim yn gialad  
20 mewn gwirionedd, weth faint wyt ti'n treio bod.'

Ond tynnodd Meg ei dwylo'n ôl fel pe baen nhw wedi'u llosgi. Cododd nhw a chuddio ei chlustiau fel plentyn.

'Dydw i ddim am glywed rhagor. Beth bynnag amdanat ti, dydy'n enw i ddim yn mynd i gael 'i lusgo yn y baw a phob dihiryn yn y dre yn gwneud sbort am fy mhen.  
25 Dydy o ddim o bwys gen ti falla, ond fedra'i ddim diodde cael fy esgymuno. Ac am ddim byd rydw i wedi'i wneud fy hun. Dim ond am fod rhyw syniadau gwirion yn dy ben di.'

Sawl gwaith yn y gorffennol y crefodd Rowland yn ei galon am lonyddwch ar adegau fel hyn? Sawl gwaith y daethai geiriau cymod i'w fin er mwyn doddi'r berthynas rhyngddynt  
30 ar echel wastad unwaith eto, hyd yn oed pe bai gofyn iddo ei ddarostwng ei hun wrth wneud? Ond heno nid oedd hyn mor bwysig â chlirio'r awyr rhyngddynt. Cawsai ddigon o fod yn anonest ag ef ei hun ac â hithau, hyd yn oed os oedd gonestrwydd yn mynd i frifo'r tro hwn. Roedd ei eiriau'n isel ond yn bendant, ac yn araf fel petai'n ceisio egluro rhywbeth wrth blentyn.

35 'Fe fŷm yn y Brithdir yn edrych am Sinai Robarts. Mae ganddi naw o blant i ofalu amdany'n nhw, ac un yn sâl hyd at farw. Mae angen help arny'n nhw. Mi rydw i wedi gofyn iddi anfon un o'r merched yma i weini. Mae hi'n dŵad fory.'

Gwrandawodd ar ei lais ei hun fel pe bai'n gwrando ar rywun arall yn siarad. Cafodd deimlad rhyfedd fod hyn i gyd wedi digwydd o'r blaen – fynta'n sefyll ac yn dweud wrth  
40 Meg fod merch Sinai Robarts i ddod atynt, hithau'n ei wynebu a'i hwyneb fel y galchen, a'i chorff mor syth â'r fedwen. Pan glywodd ei llais mor finiog â chleddyf, roedd y geiriau'n gyfarwydd, geiriau y disgwyliai eu clywed oherwydd ei fod wedi clywed yr union eiriau rywbryd o'r blaen.

45 'A dyma'r dyn a daerodd ei fod o'n fy ngharu i.' Fel fflam cydiodd yn un o'r gwydrau coch ar y dresel a chyn y medrai ei rhwystro, fe'i tafodd yn deilchion ar lawr. 'Hynna am dy gariad di! Os nad ydy 'nymuniadau i yn cyfri am fwy na rhoi mwytha i ryw hoeden hanner-pan, croeso iddi hi dy wely di. Ond paid â disgwyl i mi aros yma hefyd.'

**YN Y GWAED – Geraint Vaughan Jones**

5. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) Trafodwch ddylanwad **dwf fenyw/ dwf ddynes** ar fywyd Robin. Dylech sôn am bersonoliaeth y **ddwy** a'u dylanwad ar Robin.  
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 23.  
Sut mae'r awdur yn darlunio dicter a theimladau cryfion yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n** bwrpasol.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson Robin** yn yr ysbyty.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

- Mis o gecru diddiwedd fu hi a Mared yn gweld ei brawd yn mynd yn barotach ac yn fwy diamynedd ei ateb bob dydd. Dychrynwyd hi unwaith pan welodd ef yn rhuthro'n wyllt am y procer a'i godi'n fgygythiol i gyfeiriad mam ond dal ei thir yn ddirmygus a wnaeth yr hen wraig a Robin wedyn, yn ôl ei arfer, yn pwdu a mynd i'w gagen.
- 5 Celu a chelu ei phryder a wnâi Mared o ddydd i ddydd, rhag ychwanegu at yr holl annifyrrwch ar yr aelwyd. Ond roedd gohirio'r annymunol cyhyd ynddo'i hun yn ychwanegu'n ddiangen at bryder oedd eisoes wedi mynd â'r holl liw o'i gruddiau a rhoi cleisiau duon o dan ei llygaid. Roedd y croen o boptu'i thrwyn wedi tynhau a'i hwyneb yn feinach nag y bu. Wrth y bwrdd ni wnâi fwy na phigo'r bwyd oddi ar ei phlât.
- 10 Daeth pethau i ben un bore Llun, yr unfed ar ddeg o Fawrth, ar ôl Sul o bendroni ac atgofio, o ddychmygu ac arswydo. Dyna ddrwg dydd Sul, roedd yn ddiwrnod mor swrth a'i oriau'n llusgo.
- Roedd y penderfyniad wedi'i ffurfio'n derfynol yn ystod oriau effro'r nos a phan ddaeth Mared allan i ben y grisiau cerrig drannoeth gyda'r ychydig lestri budron yn ei dwylo a gweld Mam yn cymell yr ieir i bigo ar glwt di-eira o'r buarth, dyma ymwroli. Roedd Robin yn siŵr o fod yn ddigon pell o'u clyw.
- 15 'Tri mis? Tri mis ddeudist ti?'  
Eiliadau o syllu anghrediniol a'r ferch, o'r diwedd, yn gostwng ei golygon yn gyndyn euog.
- 20 'Tri mis? Lle uffar wyt ti 'di bod na fasat ti 'di deud wrtha i'n gynt?'  
'Peidiwch â gweiddi, Mam.' Llais tawel, edifeiriol. 'Pa wahaniaeth pe bawn i wedi deud ynghynt?' Roedd tri blewyn y ddafaden yn plycio'n ffyrnig.
- 'Gwahaniaeth, ddeudist ti? Pa wahaniaeth? Fedri di ofyn cwestiwn mor dwp?'  
25 Yn hytrach na gostwng ei llais roedd hi'n gweiddi mwy. 'Yli, anodd fydd petha rŵan!' Teimlodd Mared beth o'r euogrwydd yn ei gadael wrth deimlo'r angen i'w hamddiffyn ei hun.
- 'Wel, deudwch y gwir. Fasa fo wedi gneud rhywfaint o wahaniaeth? Fis, dau fis yn ôl, gwylltio fel hyn fasach chi wedi'i neud 'run fath yn union, fel pe baech chi'ch hun yn gwbl ddihalog.'
- 30 'Paid ti â chodi dy lais ata i, yr hoedan fach! Nac edliw! Na defnyddio dy eiria ffansi chwaith. Ti'n gwybod be 'di dy wendid di wedi bod erioed, yn dwyt?' Roedd ei llais wedi codi'n sgrech bron. 'Rhy barod i ledu dy goesa'r butan fach!'
- Ffrwydrodd Mared hefyd. 'Peidiwch chi â 'ngalw i'n butan.'
- 35 'Be arall wyt ti ond hwrn? Sgin ti syniad pwy ydi'r tad! Nag oes ma'n siŵr.'  
'Putan? Hwrn?' Pwy uffar 'dach chi i siarad ac i daflu'ch bustul?'
- Daeth sŵn drws y lloft stabal yn cael ei ysgwyd a chododd ton o grochlefain dig ond roedd y ddwy yn fyddar iddo.
- 40 'A 'dach chi'n gofyn pwy ydi'r tad? Wel, hwyrach y bydd raid i 'mhlentyn inna alw'i dad yn Dewyrth ne rw bath felly hefyd!'
- 'Gan bwyll, y gnawas!' Roedd llygaid yr hen wraig yn melltennu a'i cheg yn glafoerio. 'Mesur dy eiria'n well! Pwy ydi o?' Ac yna'n ddistawach, yn fwy petrus, 'Yr un un ag o'r blaen?'
- Chwarddodd Mared yn wawdlyd. 'Mi fasach chi'n licio gw bod yn basach!'
- 45 'Ateb fi'r munud 'ma! Ydio yn perthyn iti?'
- Roedd y drws uwch eu pennau'n cael ei ysgwyd yn lloerig a'r crochlefain wedi troi'n un waedd ofidus, hir. Sobrodd Mared drwyddi a gostyngodd ei llais.
- 'Yn perthyn imi? Falla'i fod o. Falla'n wir 'i fod o.'

**O RAN – Mererid Hopwood**

6. Atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn llawn a gofalus gan **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
(Ystyriwch y marciau a roddir am bob cwestiwn.)
- (a) *“Dim ond cyfeilydd a gollodd y gallu i ddilyn y gân.”*  
Trafodwch arwyddocâd y geiriau hyn wrth ystyried hanes bywyd Ifan Gwyn yn y nofel.  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tua dwy ochr tudalen. [20]
- (b) Darllenwch y darn a ddyfynnwyd ar dudalen 25.  
Sut mae'r awdur yn creu cynnwrf yn yr olygfa hon?  
Cofiwch **ddyfynnu'n bwrpasol**.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- (c) Ysgrifennwch **ymson** Angharad wrth iddi ddechrau ar ei chyfnod yn yr ysgol uwchradd.  
Cofiwch sôn am deimladau a digwyddiadau.  
Dylech ysgrifennu tuag un ochr tudalen. [10]
- [40]

- Ffordd hyn fydda i'n dod bob dydd i ddal y bws i'r ysgol fawr o fis Medi ymlaen, meddyliais.
- Trois eto.
- 5 'Chi'n iawn, Anti June?'  
Ond roedd Anti June ar ei chwrcwd yn eistedd yn y clawdd.  
Rhedais yn ôl ati gan daflu'r siopa i'r llawr.  
'Anti June?'
- Doedd Anti June ddim yn siarad. Roedd Anti June yn tynnu am anadl yn union fel y diwrnod hwnnw yn y gegin pan redais i mofyn Myng-gu o'r lein ddillad.
- 10 'Anti June?'
- Amneidiodd â'i llaw i ddweud yn llipa ei bod hi'n iawn a rhwng yr anadlu swnllyd llwyddodd i roi hanner gwên a dweud yn dawel, dawel, 'Y pwmp.'
- A'r tro yma roeddwn i'n gwybod yn union am beth i chwilio. Edrychais drwy'r siopa am ei hambag. Edrychais eto, yn gynt y tro hwn.
- 15 'Anti June?' Panic. 'Ble' mae'ch hambag chi?'  
Roedd Anti June yn ymladd ormod â'i anadl i chwilio.  
Doedd yr hambag ddim yna.
- Tynnais bopeth yn wyllt o'r bagiau – dim hambag. Rhaid bod yr hambag ar y bws.
- 20 'Anti June, Anti June, peidiwch symud, a' i mofyn Myng-gu.'
- Nodiodd ei phen a dechreuais redeg. Rhedeg lan y llwybr, tua'r ffin ar gornel. Rhedeg nes bod y palmant yn neidio o'm traed i'm llygaid. Rhedeg nes bod y palmant yn atsain yn fy mhen a thrwy'r stryd ac o'r ded-end allan i'r byd. Rhedeg nes bod y palmant du yn troi'n goncrit llwyd ac yn llwybr ac yn troi mewn drwy'r gatiau bach du. Rhedeg drwy'r drws cefn ac i'r gegin, lle roedd Myng-gu yn golchi'r llawr.
- 25 'Anti June,' fi oedd yn brin o anal nawr, 'Anti June, Myng-gu.'
- Rhaid bod Dad wedi clywed y cynnwrf, synhwyro bod rhywbeth o'i le, a daeth o'r stydi fel corwynt.
- 'Beth sy'n bod, Angharad fach?'
- 30 'Anti June!'
- 'Ble mae Anti June?'
- 'Ar bwys y bys-stop.'
- A dyma Dad yn rhedeg nerth ei goesau hir a Myng-gu a fi'n dilyn gore gallen ni'r holl ffordd lawr y stryd, yn ôl rownd cornel pob gwaharddiad a heibio'r ffin a lawr am y llwybr tu ôl i'r tai, a sodle bach twt Myng-gu'n morthwyllo mil o hoelion yn y palmant.
- 35 Rwy'n cofio gweld Dad yn rhedeg allan i'r ffordd i stopio ceir, a chofio'i weld yn rhoi Anti June yng nghefn car rhyw Samariad Trugarog, fel y byddai Myng-gu'n dweud wedyn.
- Trodd Dad a dweud wrth Myng-gu i fynd yn ôl i'r tŷ.
- Roeddwn i ishe llefen. Ond yn methu. Y cwbul allwn ei ddweud oedd:
- 40 'Sori, Myng-gu.'
- 'Am beth, bach?'
- Ond roeddwn i'n gwybod rywsut mai arna i oedd y bai, a bod Anti June yn mynd i farw.
- Roeddwn i wedi lladd Mam.
- Roeddwn i wedi lladd Myfanwy.
- A nawr, dyma fi ar fin lladd Anti June.